**COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF ABERAERON A GYNHALIWYD AR NOS FAWRTH CHWEFROR 10fed 2026 AM 7.00yh YN NEUADD GOFFA ABERAERON**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Rhodri Jones (Cadeirydd); Y Cynghorwyr Aled Davies, Phillip Davies, Darryl Evans, Elizabeth Evans, Lloyd Garvey, Rhodri Jones, Agnieszka Kalinowsza a Diana Mace.
Mr Denfer Morgan – Clerc y Cyngor.

**695. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Tim Archer a Rhys Davies.

**696. GWEITHDREFN**

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Tim Archer, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Gadeirydd, y Cynghorydd Rhodri Jones.

**697. DATGELU BUDDIANT PERSONOL**

Datgelodd y Cynghorydd Phill Davies fuddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yng nghais cynllunio A*260016, A260024 (Annedd) ac A260025 (Caniatâd Adeilad Rhestredig) Beryl House, 22 Ffordd y Gogledd, Aberaeron* a gyfeiriwyd ato yng Nghofnod 701, gan beidio cymryd rhan yn y drafodaeth a'r pleidleisio.
Dywedodd y Cynghorydd Elizabeth Evans ei bod wedi derbyn goddefeb gan Bwyllgor Safonau Ceredigion i siarad a phleidleisio ar faterion ynghylch Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch a gofnodwyd yng Nghofnod 703.

**698. CADARNHAD COFNODION Y CYFARFOD MISOL AR IONAWR 13eg 2026**

**PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion y cyfarfod misol ar Ionawr 13eg 2026 yn gywir.

**699. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Cofnod 678 – roedd angen trefnu trafodaethau a chyfarfod gyda Chlwb Peldroed Aberaeron
Cofnod 678 – Goleuadau'r Harbwr. Nodwyd bod bylbiau newydd wedi'u harchebu, a gofynnwyd i Martin Williams i'w gosod.
Cofnod 678 – gofyn i'r Clerc i barhau gyda'r trafodaethau gyda'r contractwr i lenwi'r tyllau ar arwyneb y ddau faes chwarae.
Cofnod 685 - anghenion storio - Atgoffwyd yr Aelodau i roi manylion i'r Clerc am gyfarpar y Cyngor a gadwyd ganddynt er mwyn creu rhestr ar gyfer dod o hyd i anghenion storio.
Cofnod 689 – datganodd y Cynghorydd Elizabeth Evans ei bod wedi derbyn cyngor oddi wrth y Cyngor Sir y byddai cytundeb WiFi yn cael ei adnewyddu'r awtomatig.

**700. MATERION CYLLID**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r taliadau canlynol:

| Anfoneb | Cyfanswm |
|---|---|
| SSE (Pen Cei)<br>Agrigem (lladdwr chwyn) (ad-dalu'r Cyngh.Garvey) | £16.90<br>£60.89 |

## 701. MATERION CYNLLUNIO

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau cynllunio canlynol:

a) A260016 - Beryl House, 22 Ffordd y Gogledd, Aberaeron. Newidiadau bychain arfaethedig i Beryl House gan gynnwys gosod ffenestri dwbl yn y ffrynt a gosod dwy stôf yn yr ystafelloedd byw.
**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad.

b) A260024(Annedd) / A260025 (Caniatâd Adeilad Rhestredig) - Beryl House, 22 Ffordd y Gogledd, Aberaeron. Gweithiau arfaethedig i osod boiler newydd a ffliw yn yr estyniad conserfatori a gosod tanc olew yn yr ardd gefn.
**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad.

c) A260063 / 064 Noddfa, 2 Bro yr Hafan, Aberaeron. Garej arfaethedig i gynnwys dymchwel adeilad allanol a wal gefn ar y ffin.
**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad.

## 702. MATERION TIR Y CYNGOR

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

**a) Cae Sgwâr:**

Yn dilyn gwybodaeth ychwanegol yn ôl y gofyn gan Ambiwlans Awyr Cymru ar gyfer digwyddiad Cerdded Tân i godi arian ar Ebrill 10fed 2026, **PENDERFYNWYD** cytuno i'r cais yn amodol ar amodau arferol y drwydded.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cais gan Peregrine Circus i ddefnyddio'r Cae ar gyfer cynnal syrcas, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gofyn iddynt ystyried gofyn i'r Clwb Rygbi os ellid defnyddio eu caeau. Barn yr Aelodau oedd y byddai'r safle yma yn fwy addas ar gyfer parcio a chyfleusterau eraill.

b) **Coed**: nodi bod ymweliad safle wedi digwydd gyda Dylan Jones ac y byddai'r coed heintus yn cael eu gwaredu, a thorri'r goeden sy'n hongian dros y garej ym Mharc-y-Fro.

## 703. PWLL NOFIO ABERAERON A'R CYLCH

Rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

a) **2025-26 Cymorth ariannol**: nodwyd y wybodaeth ariannol ddiweddaraf a dderbyniwyd oddi wrth Bwyllgor Rheoli'r Pwll, a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo taliad mis Chwefror o £1,400.

b) **Diweddariad 2026-27**:

Rhoddodd y Cynghorydd Elizabeth Evans ddiweddariad i'r Aelodau ar y sefyllfa gyfredol, yn cynnwys y datblygiadau canlynol:

- Roedd y Cyngor Sir wedi cytuno i ariannu meter clyfar newydd allan o'r arian canolog a fyddai'n rheoleiddio cofnodi defnydd trydan rhwng y Pwll a'r Ysgol Gyfun.

- Gofynnwyd i'r Ysgol Gyfun gyfrannu swm o £6,000 yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol i gwrdd â'r anghydbwysedd ynghylch ariannu'r cyflenwad trydan.
- Diogelwyd £11,000 ychwanegol yng ngrant blynyddol y Cyngor Sir, gan ddechrau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

**704. DIWEDDARIAD PROSIECT DIGIDOL**

a) Ap y dref - nid oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw wybodaeth ychwanegol hyd yn hyn gan y darparwr, ac ni wnaethpwyd darpariaeth ar gyfer cyllideb 2026-27 am ap, ac y byddai'r cytundeb yn dod i ben.

b) Canfod os oedd y gwe-gamera yn weithredol yn llawn.

c) Nodi bod y man lluniau yn cael ei storio gan y gwneuthurwyr, a thrafod gyda'r Clwb Rygbi os ellir cytuno i'w osod yno dros dro.

ch) Sensorau: cytunwyd i edrych ar yr awgrym o roi'r sensorau ar glwydi meysydd chwarae Cae Sgwâr a Pharc-y-Fro, a threialu un ym Mharc-y-Fro yn y man cyntaf.

**705. MATERION YR HARBWR**

Rhoddwyd ystyriaeth i ddiweddariad gan y Cynghorydd Elizabeth Evans ar sawl mater.

Roedd y Cyngor Sir wedi penodi contractwyr i ddechrau carthu'r banc graean yn fuan, i'w roi ar Draeth y De, a oedd i'r ail-broffilio wedyn. Roedd Atkins, Ymgynghorwyr y Cynllun, yn archwilio'r opsiwn o ychwanegu at Bier y De fel dull o atal y banc graean.

Byddai ail-arwynebu'r ardal ar bier y gogledd yn dechrau'n fuan.

**706. CYNLLUN GRANT TREFI TACLUS**

Dosbarthodd y Clerc gopi o'r cais terfynol i'w anfon at Gynnal y Cardi i'r cyfanswm £10,018 a **PHENDERFYNWYD** gofyn i'r Clerc i fynd ymlaen â'r prosiectau yn unol â'r terfyn amser newydd o Fai 31$^{ain}$ 2026.

**707. DYFYNBRISIAU AM WASANAETHAU'R CYNGOR**

**PENDERFYNWYD** gofyn am ddyfynbrisiau am:

- Darpariaeth torri gwair yn y Cae Sgwâr, Parc-y-Fro ac ardaloedd gwyrdd y dref am y tair blynedd nesaf.
- Darpariaeth gwasanaeth glanhau'r stryd ar gyfer 2026-27.

**708. SIED DYNION ABERAERON**

Rhoddwyd ystyriaeth i gais am gyfraniad o £200 tuag at gostau rhedeg Sied Dynion Aberaeron.

**PENDERFYNWYD** gohirio ystyriaeth y cais ar gyfer derbyn y cyfrifon diweddaraf.

**709. POLISI CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu Polisi drafft Cyfryngau Cymdeithasol fel y dosbarthwyd, a rhoi mwy o ystyriaeth iddo yn y cyfarfod nesaf.

## 710. <u>ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR ELIZABETH EVANS</u>

Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir Elizabeth Evans at y materion canlynol:-

- Roedd y Cyngor Sir yn ystyried cynnydd o 4.75% yn Nhreth y Cyngor.
- Rhoddwyd ystyriaeth i gynyddu cyllideb ysgolion o 4.1%.
- Ni fyddai'r ail-arwynebu Heol y Tywysog, Sgwâr Alban a Godre Rhiwgoch yn cynnwys yr ardal o flaen yr Hen Ysbyty a'r datblygiad newydd yno.
- Adroddwyd ar dyllau yn y ffordd, a deliwyd gyda'r cyfan yn unol â'r amserlen blaenoriaethau.
- Paratowyd cynllun busnes ar gyfer estyniad i'r ysgol Gynradd i'w gyflwyno at Lywodraeth Cymru.
- Newidiwyd y biniau metel du gan rai plastig (gyda fflapiau).
- Gofynnwyd am ddiweddariad ar y gwelliannau arfaethedig i Ffordd Allt-y-Graig.

Adroddodd y Cynghorydd Garvey fod sbwriel wedi'i ollwng yn yr ardal goediog islaw Pengarreg.

Atebwyd cwestiwn Cynghorydd Kalinowska gan y Cynghorydd Evans yn datgan nad oedd gwybodaeth bellach ynghylch y broblem gwelededd yng nghyffordd Heol y Bryn.

Gorffennwyd y cyfarfod am 8.40yh.